



Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC

Hysbysiad i Ganolfannau

Hysbysu ymgeiswyr o'u marciau a aseswyd gan y ganolfan

Mae'n ofynnol i ganolfannau ysgrifennu gweithdrefn apeliadau mewnol sy'n ymwneud â phenderfyniadau asesu mewnol. Yn rhan o'r weithdrefn hon, mae'n **rhaidd** rhoi gwybod i ymgeiswyr pa farc y rhoddodd eu canolfan iddynt am gydran/neu uned a asesir yn y ganolfan. Mae hyn yn berthnasol i gymwysterau TAG UG a Safon Uwch, TGAU a Phroject (gweler Cwestiwn 1, tudalen 2).

Gall ymgeiswyr ofyn am adolygiad o farcio'r ganolfan cyn i'r marciau gael eu cyflwyno i'r corff dyfarnu. Mae dogfennau'r rheoleiddwyr *Qualification Level Conditions and Requirements (Ofqual)* ac *Amodau Cydnabyddiaeth Safonol Ychwanegol (Cymwysterau Cymru)* yn cyfleu'r gofyniad hwn.

Dylai canolfannau ddefnyddio'r broses safoni mewnol i sicrhau bod pob athro yn hyderus wrth gymhwyso safon y marcio yn gywir ac yn fanwl. Dylid defnyddio deunydd enghreifftiol ac unrhyw ganllawiau a ddarperir gan y corff dyfarnu. Dylai hyn helpu i atal gwallau marcio.

Er bod nifer o ganolfannau, er enghraifft ymddiriedolaethau aml-academi yn debygol o ddilyn gweithdrefnau cyffredin, y ganolfan unigol sy'n pennu sut i reoli cais am adolygiad o farcio. Bydd y terfynau amser mewnol a osodwyd ar gyfer marcio, trefniadau safoni mewnol, trefniadau staffio ac adnoddau i gyd yn ffactorau dylanwadol. Gellir rhoi rhyddid i bob Adran Pwnc gymhwyso'r gofynion yn y ffordd fwyaf ymarferol.

Rhaidd i fanylion y weithdrefn apeliadau mewnol ysgrifenedig gael eu rhannu'n eang a rhaid iddynt fod yn hygyrch i bob ymgeisydd. Mae templed y gall canolfannau ei ddefnyddio i'w gael yn: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

Mae manylion pellach i'w cael yn nogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad. Gellir dod o hyd i'r ddogfen hefyd wrth glicio'r cyswllt uchod.

Mae cyrff dyfarnu sy'n aelodau o'r CGC hefyd wedi llunio rhai Cwestiynau Cyffredin sydd wedi'u nodi ar dudalennau 2-7 y ddogfen hon.

Cwestiynau Cyffredin (FAQs)

Ble mae'r gofyniad yn berthnasol?

1. A yw'r gofyniad i hysbysu ymgeiswyr o'u marciau canolfan yn berthnasol i gymwysterau ar wahân i gymwysterau TAG, UG, Safon Uwch, TGAU a Phroject?

Er bod y gofyniad i hysbysu ymgeiswyr o'u marciau yn berthnasol i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch, TGAU a Phroject yn unig, **rhaid** i ganolfannau fod â gweithdrefn apeliadau mewnol ysgrifenedig sy'n ymwneud â phenderfyniadau asesu mewnol ym mhob cymhwyster. Mae hyn wedi'i nodi yn nogfen y CGC Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy. **Rhaid** i fanylion y weithdrefn hon gael eu rhannu'n eang a rhaid iddynt fod yn hygyrch i bob ymgeisydd. Rhan bwysig o'r weithdrefn hon yw sicrhau bod eu marciau ar gael i ymgeiswyr.

Mae dogfen y CGC Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy ar gael i'w lawrlwytho o wefan y CGC: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

2. A yw'r gofyniad i hysbysu ymgeiswyr o'u marciau canolfan yn berthnasol i'r Arnodiad Iaith Lafar ar gyfer TGAU Saesneg Iaith a'r Arnodiad Sgiliau Ymarferol ar gyfer y Gwyddorau Safon Uwch (Cymwysterau wedi'u hachredu gan Ofqual yn unig)?

Ydy. Efallai bydd tystiolaeth yn gyfyngedig ond gallai gynnwys cofnodion ysgrifenedig ac, yn yr Arnodiad Iaith Lafar, recordiadau os ydyn nhw ar gael.

3. A yw'r gofyniad i hysbysu ymgeiswyr o'u marciau canolfan yn berthnasol i gymwysterau sydd â mwy nag un cydran a aseswyd yn fewnol – er enghraifft, y ddwy gydran ar gyfer Celf a Dylunio; ac a oes rhaid rhoi marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob cydran a asesir yn fewnol?

Oes, i'r ddwy ran o'r cwestiwn. Yn y pwnc Celf a Dylunio, sydd 100% wedi'i asesu'n fewnol, ynghyd â phynciau eraill sydd â mwy nag un gydran a asesir yn fewnol, mae'n rhaid rhoi'r holl farciau i'r ymgeiswyr a gallan nhw wneud cais am adolygiad o un neu fwy o'r marciau hynny.

Cais am adolygiad

4. Beth dylai canolfan ei wneud os caiff ei herio am farc ymgeisydd cyn cymedroli'r corff dyfarnu?

Yn y lle cyntaf dylai'r ganolfan ddilyn ei gweithdrefn apeliadau mewnol gyhoeddus, y mae'n **rhaid** i'r ganolfan nodi ei threfniadau ynddi ar gyfer cynnal adolygiad o farciau a asesir yn fewnol. Dylai canlyniad yr adolygiad bennu'r marc sydd i'w gyflwyno i'r corff dyfarnu.

Byddai'r marciau y byddai'r ganolfan yn eu cyflwyno i'r corff dyfarnu wedi'u safoni'n fewnol, gan ganiatáu i broses gymedroli'r corff dyfarnu gael ei chynnal yn llwyddiannus.

5. Beth dylai canolfan ei wneud os yw'n cael ei herio am farc ymgeisydd ar ôl cymedroli?

Rhaid cwblhau'r broses adolygu mewnol cyn terfyn amser y corff dyfarnu ar gyfer cyflwyno marciau. **Rhaid** rhoi gwybod i unrhyw ymgeisydd sy'n cyflwyno ceisiadau hwyrach am adolygiad eu bod yn rhy hwyr. **Rhaid** i ganolfannau gyhoeddi a rhannu terfynau amser clir i'r ymgeiswyr fel y gallant wneud cais am adolygiad o farc y ganolfan cyn y dyddiad cyflwyno marciau i'r corff dyfarnu.

6. Pa ddeunyddiau dylai'r ganolfan sicrhau eu bod ar gael i ymgeiswyr fel y gallant benderfynu a ydyn nhw am barhau â chais am adolygiad o asesiad mewnol?

Dylai copïau o'r deunyddiau asesu wedi'u marcio a'r cynllun marcio neu'r meini prawf asesu fod ar gael, o leiaf. Gall deunyddiau ychwanegol amrywio o bwnc i bwnc. Ar gyfer rhai deunyddiau asesu wedi'u marcio, fel gwaith celf a recordiadau, efallai y byddai'n fwy priodol eu rhannu dan amodau o dan oruchwyliaeth.

7. Beth yw ystyr 'digon o amser' i ymgeisydd astudio copïau o ddeunyddiau a phenderfynu a ydynt am ofyn am adolygiad o'r marc a roddwyd gan y ganolfan?

Dylai canolfannau caniatáu o leiaf pum diwrnod gwaith fel arfer. Gallai hyn amrywio, yn dibynnu ar, er enghraifft, y pwnc, maint y garfan a nifer yr athrawon ar gyfer y pwnc hwnnw yn y ganolfan. Dylai canolfannau roi terfyn amser clir i ymgeiswyr, gan ystyried yr amser y bydd ei angen i adolygu unrhyw farciau a chyflwyno'r marciau terfynol i'r corff dyfarnu erbyn y terfyn amser swyddogol. **Ni ddylid** caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio deunydd asesu gwreiddiol ar unrhyw gyfrif, yn cynnwys arteffactau, oni bai eu bod yn cael eu goruchwyllo.

8. A fydd corff dyfarnu yn caniatáu i farciau a aseswyd gan y ganolfan gael eu cyflwyno ar ôl y terfyn amser cyhoeddedig yn benodol i fodloni ceisiadau ymgeiswyr am adolygiadau o asesiad mewnol?

Na. **Ni** fydd corff dyfarnu yn caniatáu i ganolfan gyflwyno marciau a aseswyd gan y ganolfan ar ôl y terfyn amser yn benodol i fodloni ceisiadau ymgeiswyr am adolygiadau o asesiad mewnol. **Rhaid** cwblhau adolygiad erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau i'r corff dyfarnu.

9. Ai'r unig amser y gall ymgeisydd wneud cais am adolygiad o farc asesiad mewnol yw ar ôl canfod problem neu broblemau?

Bydd angen i ymgeiswyr esbonio ar ba sail y maen nhw am wneud cais am adolygiad o farc asesiad mewnol. Efallai y bydd canolfannau yn dymuno diystyru cwynion ynglŷn ag ansawdd addysgu gan y bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ansawdd y gwaith a gyflwynwyd. Ar ôl adolygu'r copïau o ddeunyddiau sydd ar gael, bydd angen i'r ymgeisydd esbonio beth yw'r broblem.

Mae'n debygol y bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais am adolygiadau yn credu nad yw'r marciau a roddwyd iddynt yn rhoi credyd digonol iddynt am fodloni'r meini prawf asesu cyhoeddedig. Maent yn annhebygol o wneud cais am adolygiad ar y sail nad yw eu marc yn cyfateb i'r safonau a osodwyd gan y ganolfan. Pwrpas rhoi'r meini prawf asesu i ymgeiswyr yw eu galluogi i werthuso p'un a yw'r meini prawf wedi'u cymhwyso'n gywir.

Rhaid i ymgeiswyr ddeall y gallai'r broses gymedroli sy'n cael ei chynnal gan y corff dyfarnu arwain at newid marc, naill ai i fyny neu i lawr, hyd yn oed ar ôl adolygiad mewnol. Mae'r broses adolygu mewnol wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau cysondeb y marcio yn y ganolfan. Mae cymedroli gan y corff dyfarnu yn sicrhau bod marcio canolfannau yn unol â safonau cenedlaethol. Gallai'r marc sy'n cael ei gyflwyno i'r corff dyfarnu newid a dylid ei ystyried yn farc dros dro.

10. A yw'r ganolfan yn cael codi tâl ar ymgeiswyr am adolygiad mewnol?

Penderfyniad y ganolfan yw hyn yn llwyr, neu gall gyfateb o bosibl i unrhyw bolisiâu eraill y ganolfan yn ymwneud â chodi tâl am wasanaethau, megis gwiriadau clerigol neu adolygiadau o farcio corff dyfarnu.

Yr adolygiad

11. A ddylid adolygu'r marc a roddwyd ynteu'r broses sy'n arwain at roi'r marc?

Dylid adolygu'r marc a roddwyd, gan gadarnhau p'un a yw marc yr ymgeisydd yn unol â'r safon a osodwyd ar gyfer yr ymgeiswyr eraill yn y ganolfan ai peidio. Bydd y canlynol yn cael ei adolygu:

- gwaith yr ymgeisydd (lle mae'r dystiolaeth o hyn yn fyrhoedlog, er enghraifft ym mhynciau Drama neu Gerddoriaeth, yna dylid rhoi recordiad o'r gwaith i'r adolygwr);
- y daflen farciau a gwblhawyd gan yr athro sydd fel arfer yn dangos y dyraniad marciau fesul Amcan Asesu (AA) neu adran o'r cynllun marcio;
- gwybodaeth ynghylch unrhyw safoni mewnol i wirio p'un a gymhwysodd y marciwr gwreiddiol safonau cyson at waith yr ymgeisydd; ac
- unrhyw sylwadau neu anodiadau a wnaed gan yr athro yn ystod y broses farcio.

(Hefyd, gweler Cwestiwn 14)

12. Pwy ddylai gynnal yr adolygiad o farc a aseswyd yn fewnol pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais am un?

Mae'n **rhaid** i'r adolygiad gael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, sydd heb ymwneud ag asesu'r ymgeisydd yn y gydran dan sylw o gwbl yn flaenorol, a heb fudd personol o gwbl yng nghanlyniad yr adolygiad.

Gall naill ai fod yn athro arall yn y ganolfan, neu'n athro o ganolfan arall.

Fodd bynnag, byddai angen i'r ganolfan sicrhau bod yr adolygwr wedi datgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn cynnal yr adolygiad.

Mae'n dderbyniol i athro, sydd wedi cael ei safoni'n fewnol, adolygu gwaith ymgeisydd sydd wedi'i farcio gan athro arall yn yr un ganolfan. Fodd bynnag, os oedd gwaith yr ymgeisydd yn rhan o broses safoni mewnol y ganolfan, ni fyddai'n bosibl i'r athro a gymerodd ran yn y broses safoni mewnol adolygu gwaith yr ymgeisydd ar ôl hynny.

Ar gyfer canolfannau mawr, gallai trefniadau safoni mewnol alluogi is-grwpiau gwahanol o athrawon i farcio, safoni a chynnal unrhyw adolygiadau mewn trefniant matrices.

Ar gyfer canolfannau bach, lle mae ychydig o staff yn unig, gall fod angen i'r ganolfan ystyried p'un a oedd yr ymgeisydd dan sylw 'yn y sampl' i'w safoni'n fewnol ai peidio, ac felly eisoes wedi'i weld gan holl staff yr adran. Efallai yr hoffai'r ganolfan ystyried safoni aelod arall o staff mewn adran arall, mewn pwnc cysylltiedig, er mwyn cynnal adolygiadau o farcio. Fel arall, gallai'r ganolfan allanoli'r adolygiadau o'r marcio; er enghraifft, i athro mewn ysgol arall.

13. A fydd allanoli'r adolygiad o farc wedi'i asesu'n fewnol yn torri cyfrinachedd deunyddiau asesu a data ymgeisydd?

Na. Ni ddylid trafod deunyddiau asesu cyfrinachol ag unrhyw berson nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chynnal nac asesu'r dasg/tasgau, na'u hanfon atyn nhw. Fodd bynnag, oherwydd bod yr adolygwr yn gysylltiedig â'r broses asesu, nid yw cyfrinachedd yn cael ei dorri. **Rhaid** i unrhyw bartïon allanol gydymffurfio â pholisi diogelu data'r Ganolfan ynghylch data ymgeiswyr.

14. Sut dylid cynnal yr adolygiad?

Gall gwahanol ddulliau gweithredu fod yr un mor ddilys â'i gilydd, yn dibynnu ar y pwnc penodol. Fodd bynnag, nid yw tasg yr adolygwr yn amrywio. Bydd yr adolygwr yn derbyn deunyddiau o broses safoni mewnol y ganolfan a gynhaliwyd cyn rhyddhau'r marciau i ymgeiswyr, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei adolygu. Bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod yn cadw deunyddiau safoni mewnol at y pwrpas hwn. Byddai angen i'r adolygwr weld gwaith yr ymgeisydd, taflen farciau'r aseswr mewnol ac unrhyw anodiadau neu sylwadau sy'n dangos sut neu pham y rhoddwyd marc penodol.

Mae'n **rhaid** ystyried y rhain yng nghyd-destun y deunyddiau safoni mewnol a ddarparwyd er mwyn sicrhau dull cyson ar gyfer ymgeiswyr eraill yn yr un ganolfan. Lle na chynhaliwyd unrhyw safoni mewnol (oherwydd bod un athro yn unig yn ymwneud â marcio'r gydran), mae'n rhaid ystyried gwaith ymgeiswyr eraill yn y garfan i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau ar gysondeb safonau.

Dylai'r adolygiad ddigwydd yng nghanolfan yr ymgeisydd, i gynnal uniondeb y gwaith, ac i sicrhau ei fod yn cael ei storio'n ddiogel. Os oes rhaid cynnal yr adolygiad o bell, yna dylid cadw'r deunyddiau gwreiddiol yn y ganolfan, a dylid rhoi copïau o waith yr ymgeisydd i'r adolygwr.

Unwaith y bydd y ganolfan wedi rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ei farc ar gyfer cydran neu uned a aseswyd gan ganolfan, **rhaid** esbonio i'r adolygwr, yr athro a'r ymgeisydd nad oes hawl gan unrhyw un i newid y gwaith.

Mae'n **rhaid** i'r adolygwr roi rheswm dros gadarnhau neu newid y marc a roddwyd gan y ganolfan. Gallai hyn fod yn anodi byr ar y ffurflen gofnodi, yn dangos crynodeb yr adolygwr o'r marciau fesul Amcan Asesu (AA) neu adran.

Rhaid i'r ganolfan hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o ganlyniad yr adolygiad. Dylid hefyd ei logio a'i ddwyn i sylw pennaeth y ganolfan. Mae'n rhaid i'r cofnod ysgrifenedig fod ar gael i'r corff dyfarnu ar gais. **Mae'n rhaid** i'r ganolfan roi gwybod i'r corff dyfarnu os nad ydyn nhw'n derbyn canlyniad adolygiad.

Os yw'r adolygiad yn codi pryderon ehangach, er enghraifft am y ffordd y cymhwysodd y ganolfan y meini prawf asesu yn gyffredinol, dylai'r adolygwr drafod y rhain gyda phennaeth yr adranneu bennaeth y ganolfan fel sy'n ofynnol. Dylid ceisio cyngor pellach gan y corff dyfarnu os yn briodol.

15. Os yw adolygwr allanol yn anghytuno â'r marcio, a oes rhaid i'r ganolfan dderbyn y marc newydd?

Dylid cyfarwyddo'r adolygwr i sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â **safon marcio'r ganolfan** a chywiro unrhyw wall marcio.

Y tri math o wall marcio yw:

- gwall gweinyddol;
- methiant i gymhwyso'r meini prawf marcio at y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd lle nad oedd y methiant hwnnw yn cynnwys arfer barn academiaidd; neu
- arfer barn academiaidd yn afresymol.

Os oes gwall marcio yn y gwaith, **rhaid** i'r adolygwr ddangos lle mae'r gwall marcio hwnnw wedi digwydd a sut nad yw'r marc yn cyfateb i safon ymgeiswyr eraill yn y ganolfan. Dylai'r ganolfan benderfynu p'un a yw unrhyw wahaniaeth yn y marcio hwnnw o fewn unrhyw oddefiannau y byddent yn eu caniatáu yn ystod y broses safoni mewnol. Pennaeth y ganolfan fydd yn penderfynu os oes unrhyw anghytuno ar y marc i'w gyflwyno i'r corff dyfarnu.

Mae'n rhaid i'r ganolfan roi gwybod i'r corff dyfarnu os nad ydyn nhw'n derbyn canlyniad adolygiad.

Ar ôl yr adolygiad

16. A fydd y corff dyfarnu yn gofyn i'r ganolfan gyflwyno'r gwaith a adolygwyd i'w gymedroli?

Bydd y corff dyfarnu yn defnyddio ei system samplu safonol i nodi gwaith ymgeiswyr i'w gyflwyno i'w gymedroli. Gallai hyn gynnwys ymgeiswyr yr adolygwyd eu marciau.

17. A all ymgeiswyr roi cynnig ar wella canlyniad adolygiad drwy gynhyrchu gwaith ychwanegol?

Na. Nid cyfle i ymgeiswyr geisio gwella eu marc ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwaith terfynol y ganolfan yw hwn. Pwrpas penodol y gwasanaeth yw rhoi cyfle i herio'r marc a roddwyd gan y ganolfan, ar waith a gyflwynwyd eisoes i'w asesu.

18. Pwy sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am degwch a chyfreithlondeb y marciau a'r graddau a ddyfarnwyd?

Y ganolfan sy'n gyfrifol am ddilyn y rheoliadau a'r prosesau a osodwyd gan gorff dyfarnu, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud ag asesu mewnol. Dylid cyfeirio unrhyw her gyfreithiol a wnaed yn erbyn canolfan ynglŷn â marc a ddyfarnwyd yn rhan o gymhwyster at y corff dyfarnu perthnasol.

Fodd bynnag, os gwneir yr her cyn i'r cymedroli ddigwydd, byddai angen i'r achwynydd aros tan i'r broses gymedroli gael ei chwblhau. Byddai angen i'r corff dyfarnu fodloni ei hun fod y ganolfan wedi dilyn y prosesau cywir. Cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am y graddau a'r dyfarniadau a wnânt.